Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**

**'Darganfod Eich Rôl mewn Ymchwil iechyd a Gofal Cymdeithasol'**

**Cynllun Gweithredu Drafft**

Nodiadau:

Mae'r ddogfen hon yn rhoi amlinelliad cychwynnol o'r themâu allweddol sy'n deillio o'r digwyddiadau cyd-ddylunio ac ymgysylltu a'r camau gweithredu a'r gweithgareddau arfaethedig i gyflawni'r uchelgeisiau ar gyfer ymgysylltu a chynnwys y cyhoedd fel yr amlinellir yn 'Darganfod Eich Rôl mewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol'.

Bydd fersiwn derfynol y cynllun gweithredu yn ategu'r ddogfen 'Darganfod Eich Rôl' ddiwygiedig. Felly, nid yw'r amlinelliad hwn yn cwmpasu pwysigrwydd ehangach ymgysylltu a chynnwys y cyhoedd yn fanwl. Mae fformat y cynllun gweithredu yn dal i gael ei drafod, ond mae'r ddogfen hon yn dechrau cydgrynhoi'r cynnwys.

Nodwch y bydd y ddogfen derfynol yn cael ei symleiddio, gan ganolbwyntio ar atebion. Fodd bynnag, at y diben hwn, rydym wedi cynnwys meysydd problemus, pwyntiau ffocws allweddol, a chamau gweithredu awgrymedig.

## Pwysigrwydd Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd:

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo i wneud cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy ystyrlon. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gan y cyhoedd lais gwirioneddol mewn ymchwil, sy'n cymryd amser ac adnoddau. Rydym yn disgwyl i bawb yr ydym yn eu cyllido flaenoriaethu cynnwys y cyhoedd fel yr ydym ni yn ei wneud.

Rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed gan gyfranwyr cyhoeddus, ymchwilwyr ac eraill sy'n ymwneud â'n cymuned. Mae eu hymdrechion wedi helpu i wella cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil ledled Cymru a hyd yn oed wedi cyfrannu at drafodaethau cenedlaethol, megis Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd a chanllawiau ar dalu cyfranwyr cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod lle i wella bob amser.

## Darganfod eich Rôl 1.0

Yn 2020, gwnaethom gyflwyno Darganfod Eich Rôl mewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cynllun gweithredu i hybu cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil. Fe'i datblygwyd gyda mewnbwn gan y cyhoedd, ymchwilwyr a gweinyddwyr ymchwil, gan ganolbwyntio ar saith maes allweddol. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae aelodau cyhoeddus ac ymchwilwyr wedi gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â rhwystrau a datblygu atebion. Er ein bod wedi gwneud cynnydd—fel creu fforwm ar gyfer rhannu arferion da a datblygu strategaethau ymgysylltu â'r cyhoedd—mae angen gwella rhai meysydd o hyd, ac efallai y bydd heriau newydd yn codi.

## Penderfyniad i symud i gam 2:

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y cynllun pedair blynedd hwn, buom yn myfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd a'r hyn oedd angen sylw o hyd. Gwnaethom gynnal digwyddiadau cyd-ddylunio ac ymgysylltu i archwilio ffyrdd o oresgyn rhwystrau a gwella cynnwys y cyhoedd ymhellach. Sylweddolom fod y gwaith hwn yn daith barhaus, gyda chynnydd yn agor drysau i welliannau yn y dyfodol.

Fe wnaethom nodi pedwar maes allweddol i ganolbwyntio arnynt er mwyn symud ymlaen:

1. Yr hyn a ddysgwyd o *Darganfod Eich Rôl 1.0* a nodi heriau parhaus.

2. Ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys ymchwilwyr a chyfranwyr cyhoeddus brwdfrydig a llai profiadol.
3. Datblygu cynllun gweithredu newydd (*Darganfod Eich Rôl 2.0*) sy'n amlinellu'r camau sydd eu hangen i wireddu uchelgeisiau.
4. Cwblhau'r cynllun, gan sicrhau bod gennym ffordd i werthuso a mesur cynnydd.

**Dull o weithredu Cam 2 – darganfod:**

Yn ystod fforymau cyhoeddus ddiwedd 2023 a dechrau 2024, fe wnaethom gasglu adborth ynghylch rhwystrau rhag cynnwys y cyhoedd. Buom yn gweithio gyda grwpiau amrywiol, gan gynnwys aelodau cyhoeddus, ein cynghrair cynnwys a'n Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, i adolygu ein cynllun gweithredu a mireinio'r meysydd ffocws. Yn dilyn hyn, gwnaethom greu 15 o ddatganiadau problemau a gwahoddwyd dros 80 o aelodau cyhoeddus ac ymchwilwyr i ddosbarthu'r materion hyn trwy arolwg ar-lein. Yna gwnaethom eu crynhoi o dan bum prif thema:

- **Adnoddau:**
  - Dim digon o arian ar gyfer gweithgareddau cynnwys.
  - Diffyg amser wedi'i neilltuo ar gyfer datblygu gweithgareddau cynnwys y cyhoedd.
- **Cynwysoldeb:**
  - Anhawster wrth gynnwys grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol gydag amser ac adnoddau cyfyngedig.
  - Angen mwy o gyfleoedd datblygu sgiliau i gyfranwyr cyhoeddus, megis cadeirio cyfarfodydd.
- **Taliadau:**
  - Prosesau talu cymhleth sy'n gwneud cael eu cynnwys yn llai atyniadol i unigolion.
  - Yn aml, nid oes gan anfonebau fanylion, sy'n ei gwneud hi'n anodd rheoli cyllid.
- **Effaith:**
  - Mae cyfathrebu gwael parhaus gan dimau astudio yn golygu nad yw cyfranwyr yn ymwybodol o ganlyniadau.
  - Nid yw'n glir sut mae ymchwil yn effeithio ar wasanaethau yng Nghymru a rôl cynnwys y cyhoedd.
- **Cyfleoedd:**
  - Mae'r broses ar gyfer dod o hyd i gyfleoedd cynnwys yn ailadroddus ac yn cymryd llawer o amser.
  - Mae cyfleoedd yn aml yn gofyn am brofiad blaenorol, sy'n eithrio newydd-ddyfodiaid.
  - Anhawster wrth geisio dod o hyd i restr gynhwysfawr o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Yn ystod y chwe mis diwethaf, Mawrth 2024 – Awst 2024, rydym wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau cyd-ddylunio ac ymgysylltu i fynd i'r afael â rhwystrau a datblygu atebion, gan barhau â'n hymrwymiad i wella cynnwys y cyhoedd.

Ar draws y meysydd ffocws, bydd safonau'r DU ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn gweithredu fel y fframwaith sy'n llywio'r newid. Dylid edrych ar yr holl gamau gweithredu trwy lens y safonau hyn.

Gweithiodd y cyfranogwyr gyda'i gilydd i awgrymu atebion ymarferol a strategol. Roedd rhai yn atebion syml, tra bod eraill yn gosod y sylfaen ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r

cynllun gweithredu hwn yn adlewyrchu'r gwaith cydweithredol a'r syniadau a rennir o ganlyniad i’r gweithdai.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella cynnwys y cyhoedd a byddwn yn parhau i fireinio ein dull gweithredu i'w wneud yn fwy hygyrch ac effeithiol i bawb.